

Hafan

Pori

Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

Chwiliad testun rhydd

English

PDF

Argraffu

Cyfeirnod

Linell Amser

English

Hafan

Pori

Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

EVANS, EVAN HERBER (1836 - 1896), gweinidog Annibynnol a phrifathro coleg diwinyddol

Enw: Evan Herber Evans
Dyddiad geni: 1836
Dyddiad marw: 1896
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog Annibynnol a phrifathro coleg diwinyddol
Maes gweithgaredd: Crefydd; Addysg
Awdur: John Dyfnallt Owen

Ganwyd yn Pant-yr-onnen, ger Castellnewydd Emlyn, 5 Gorffennaf 1836. Cafodd addysg fore oes yng Nghastellnewydd Emlyn, Pont Sely, a Llechryd. Bu'n gweini mewn siopau dillad yn Rhydlewis, Pontypridd, Merthyr Tydfil, a Lerpwl. Yn Lerpwl, daeth i gyfathrach agos â **Dr. John Thomas**. Ar ei gymhelliad ef ac eglwys y Tabernacl, dechreuodd bregethu yn 1857; bu am dymor yn y Coleg Normal, Abertawe, ac yng Ngholeg Aberhonddu, 1858-62. Ordeiniwyd ef yn Libanus, Treforus, 25 a 26 Mehefin 1862, yn olynnydd **Thomas Jones**, un o bregethwyr enwocaf ei oes. Symudodd, 1865, i Salem, Caernarfon, lle y treuliodd weddill ei oes fel gweinidog hyd Rhagfyr 1892, pryd y penodwyd ef yn brifathro Coleg Bala-Bangor yn olynnydd i **Thomas Lewis**. Bu'n hwyrfrydig i dderbyn y brifathrawiaeth ac wedi gweld na allai gadw ymlaen mewn dwy swydd y rhoddodd heibio ei ofalaeth yn Salem, Caernarfon. Dechreuodd ar ei waith ym Mangor yn Ionawr 1893, a thraddododd ei bregeth ymadawol yn Salem ar 25 Chwefror 1894. Bu farw 30 Rhagfyr 1896.

Enillodd ei blwyf fel un o bregethwyr amlycaf ein cenedl yn gynnar yn ei weinidogaeth. Cymerth ran flaenllaw ym mudiadau addysgol, cymdeithasol, gwleidyddol, a chrefyddol ei genedl. Am ei wasanaeth i addysg a sefydliadau dyrchafol, dyrchafwyd ef yn ustus heddwch. Derbyniodd anrhydedd uchaf ei enwad yng Nghymru a Lloegr - cadair Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn 1886 a chadair Undeb Cynulleidfaol Lloegr a Chymru yn 1892. Pregethwr ydoedd yn gyntaf, yn olaf, ac yn bennaf. Ni fu cymaint o alw ar neb arall yn ei gyfnod fel darlithydd a phregethwr. Yr oedd yn olyniaeth '**Hiraethog**' fel darlithydd. Yn ei ddarlithiau, ar Livingstone a Cromwell, cafwyd patrwm o arddull areithio pur; yn ei bregethu, patrwm o ddawn huawdl, eneiniedig - y rhywogaeth o ddawn sydd yn ysgwyd cynulleidfa. Ceid llawer o nodweddion Spurgeon a Moody yn ei bregethau. Dewiswyd ef yn un o olygyddion *Y Dysgedydd* yn 1874; bu'n olygydd y cyhoeddiad o 1880 hyd ei farwolaeth. Bendith fwyaf ei flynyddoedd olaf oedd ei wasanaeth i'w enwad wrth ymgymryd â bod yn brifathro Coleg Bala-Bangor. Bu'n darlithio ar 'Bregethu' yn y coleg (1889-93), ac yn brifathro 1893-6. Mawr oedd ei ofal dros y myfyrwyr, a'i holl fryd ar eu cymhwyso yn yr alwedigaeth yr oedd ef ei hun yn addurn iddi.

Awdur

Y Parchedig John Dyfnallt Owen , (1873 - 1956)

Ffynonellau

H. Elvet Lewis, *Cofiant y Parch. E. Herber Evans, D.D., Caernarfon*(Gwrecsam 1901)

Album Aberhonddu â€; o'r flwyddyn 1755 hyd 1880 (1898)

Y Dysgedydd

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg (Bangor 1936)

Darllen Pellach

H. Elvet Lewis, *The life of E. Herber Evans, D.D. From his letters, journals, etc.*(London 1900?)

Gweithiau

E. Herber Evans, *John Penry, y merthyr ymneillduol Cymreig*(London 1893)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 36483911

Wikidata: Q5415420

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Owen, J. D.. (1953). EVANS, EVAN HERBER (1836 - 1896), gweinidog Annibynnol a phrifathro coleg diwinyddol. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-EVAN-HER-1836>

Diwylliant

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu



LLYFRGELL
THE NATION

